I'W RYDDHAU AR UNWAITH

10/08/2023

**Mae Llais yn datgelu menter newydd i chwyddo lleisiau Cymraeg wrth lunio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.**

Ar gyfer ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â:


Ben Eaton – Cyfarwyddwr Strategol. Ben.eaton@llaiscymru.org

07974 867517


- Y mae Llais wedi cyhoeddi datganiad Partneriaeth Cyd-Weithio gyda Yr Urdd, Merched Y Wawr, Mudiad Ysgolion Meithrin a Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru.
- Bydd yn galluogi pobl o wahanol oedran a chefndir i ddefnyddio'r Gymraeg a bod yn rhan o wneud iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn well iddyn nhw a'u hanwyliaid.
- Mae'n gam arall ymlaen i Llais wrth hyrwyddo hawliau a disgwyliadau'r ystod amrywiol o bobl sy'n byw yn ein cymunedau.

Mae Llais wedi creu partneriaeth gydweithredol gyda Yr Urdd, Merched y Wawr, Mudiad Meithrin a Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru.

Bydd y fenter yn canolbwyntio ar ddod â lleisiau Cymraeg eu hiaith i mewn i'r sgwrs am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a'i nod yw creu pont sy'n galluogi siaradwyr Cymraeg o wahanol gefndiroedd ac ardaloedd i fod yn rhan o lunio gwasanaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu bywydau.

Mae'r fenter hon yn rhan o genhadaeth Llais i feithrin deialog agored rhwng y cyhoedd, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a darparwyr gwasanaethau, ac mae'r bartneriaeth gydweithredol hon yn gam pwysig yn ei hymrwymiad i gynnwys pob llais yn y sgwrs.

Bydd y sefydliadau'n cydweithio i greu mwy o gyfleoedd i gasglu barn unigolion drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y gwahanol gymunedau yng Nghymru er mwyn gwella'r iechyd a'r gofal cymdeithasol a gânt.

Nododd yr Athro Medwin Hughes, Cadeirydd Llais: "Mae sefydlu partneriaeth o'r fath rhwng y sefydliadau cenedlaethol hyn yn cydnabod amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol Cymru a'i harwyddocâd wrth lunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Sefydlwyd Llais i fod yn gorff annibynnol cynhwysol sy'n gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo hawliau a disgwyliadau pobl sy'n byw yn ein cymunedau ledled Cymru ac mae'r bartneriaeth hon yn ymgorffori'r agwedd hon. Edrychaf ymlaen at fwy o ddatblygiadau fel hyn yn y misoedd nesaf."

Dywedodd Sian Lewis, Cyfarwyddwraig Yr Urdd: "Mae'r Urdd yn falch o'r cyfle i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc Cymru yn cael eu clywed wrth fireinio iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hwn yn lwyfan gwych i wneud yn siŵr bod cyfle i pobl ifanc i gynnig eu barn ar bynciau pwysig amrywiol."

Nododd Tegwen Morris, Cyfarwyddwraig Genedlaethol Merched y Wawr: "Mae Merched y Wawr yn rhoi pwys mawr ar ddatblygu cyfleoedd llesiant. Bydd y cydweithio hwn yn sicrhau bod lleisiau ein haelodau yn cael eu clywed ac yn gallu dylanwadu ar ddatblygiadau perthnasol. Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda Llais i ddatblygu'r gwaith."

Dywedodd Gwenllian Lansdowne, Prif Weithredwr, Mudiad Meithrin: "Mae sicrhau cyfleoedd i ganfod barn unigolion sy'n ymwneud ag iechyd a lles datblygiad blynyddoedd cynnar plant yn bwysig i Fudiad Meithrin. Dyna pam mae cydweithio gyda Llais yn bwysig. Edrychwn ymlaen at ddatblygu partneriaeth a fydd yn darparu cyfleoedd pellach i gydweithio."

Wrth groesawu'r bartneriaeth, dywedodd Mared Rand Jones, Prif Weithredwr Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru: "Rydym yn falch o'r cyfle i weithio gyda Llais. Mae gwrando ar leisiau amrywiol ein haelodau ar draws Cymru yn bwysig, yn enwedig wrth ystyried materion iechyd a gofal amrywiol yn ein cymunedau gwledig."

Ynglŷn â:

Sefydlwyd Llais ym mis Ebrill eleni fel corff statudol annibynnol i roi llawer mwy o lais i bobl Cymru wrth gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Mae Llais yn credu mewn Cymru iachach lle mae pobl yn derbyn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnynt mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw.

Bydd casglu straeon bywyd go iawn ac adborth am ddefnyddio gwasanaethau'r GIG a gofal cymdeithasol yn helpu Llais i ddatblygu a gwella gwasanaethau ledled Cymru.

www.llaiscymru.org